WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2018

Cyflog Uwch-reolwyr

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 24 Gorffennaf 2018, pan ofynnoch am wybodaeth ynghylch 'y tri chyflog uchaf yn eich sefydliad, ynghyd â'r swyddi a ddalwyd yn 2016/17 a 2017/18'.

Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i gyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n benodiad gan y Goron, wedi'i nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, ynghyd â gwybodaeth am daliadau i'n staff uwch, a ddarperir mewn bandiau o £5,000. Rydym yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar ein gwefan ac mae'r adroddiadau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 ar gael yn: http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adroddiad-blynyddol-chyfrion-2016-17 a: http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-18 yn y drefn honno. Mae gwybodaeth am rolau ein staff uwch ar gael ar ein gwefan yn: http://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/pwy-yw-pwy. Yn unol â hynny, mae'r wybodaeth hon yn gymharol hygyrch i chi trwy ddulliau eraill ac mae wedi'i heithrio rhag datgelu o dan adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rwyf yn atal gwybodaeth union am gyflogau unigol o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan ei bod yn cynnwys data personol ac, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ffactorau ychwanegol er budd y cyhoedd neu amgylchiadau eithriadol y byddai'n cyfiawnhau datgelu gwybodaeth union am gyflogau. Mae canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am wybodaeth ynghylch cyflogeion awdurdodau cyhoeddus ar gael yn: https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section_40_requests_for_personal_data_about_employees.pdf

Os hoffech gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth yr Adran Gyfraith a Moeseg, drwy anfon neges e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu lythyr at 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar a ymdriniwyd â'ch cais mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod wedi dilyn pob un o'n gweithdrefnau cwyno mewnol i'r eithaf cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth